

# BESS YN TEYRNASU.

Cerdd yn dangos mor ddedwydd oedd y  
Cymry yn byw yn amser y Frenines Bess.

*Ar y dôn—"The happy days of Queen Bess."*

Os oes yma rai o hil yr hen Gymry,  
Yn hoffi'r hen iaith, ac hefyd clywed canu,  
Hyfryd i ni feddwl am yr amser aeth heibio,  
Pan oedd y byd yn dda, a'r bobl heb eu rhwystro.

BYRDWN.

*O! faint o gyfnewid yn awr sydd yng Nghymru,  
Er yr amser gynt pan oedd Bess yu teyrnasu.*

Nid oedd yr amser hynny fawr o eisiau arian,  
Pob un yn byw yn enwog ar ei dir ei hunan,  
Croesawu cerddorion y byddid wythnosau,  
Rhai i ganu haf, a'r lleill i ganu gwyliau.

O! faint, &c.

Llawer math ar gân a fyddai gan y rhei'ny,  
Symblen Ben Bys, a'r hen Hob y Deri;  
Plygiad y Bedol Fach, a Marged Fwyn Ferch Ifan,  
Ar hyd y Nos, a'r hen Forfa Rhuddlan.

O! faint, &c.

Nid oedd yn yr oes hòno fawr o son am drethi,  
Na mesur y tiroedd, na chodi yn y rhenti;  
Undeb a chariad oedd ym mhob cym'dogaeth,  
A gadael i Satan gyflogi gwŷr y gyfraith.

O! faint, &c.

Ar brydnawn gwyliau, myn'd byddai'r llanciau  
I ganol llanerch deg, i gadw chwareu-gampiau;  
Rhedeg a neidio y byddai'r rhai gwrol,  
Ymaffyd cwdwm clos, a thafu maen a throsol.

O! faint, &c.

Nid oedd yn yr oes hòno ond ychydig o falchder,  
 Ni welwyd yn Llundain odid Haberdasher ;  
 A phawb hyd wlad Cymru yn byw yn ddigon llawen,  
 A'u dillad i'gyd o frethyn llwyd a gwlanen.

O! faint, &c.

Nid oedd gan yr hen Sian, Modrib Alis, a Malen,  
 Ond bacsen am y goes, a charai i glymu'r gloesen,  
 Pais o ddu'r ddafad, a chrys o wlanen deneu,  
 Het o frethyn tew, a chap o liain gartre',

O! faint, &c.

Nid oedd gan yr hen Sion, a Meurig ab Morgan,  
 Ond cryspas o wlanen, a chlôs o frethyn h'erpan,  
 Ffon o dderwen gref a fyddai yn eu dwylaw,  
 A gwregys am eu canol i rodio ar ol ciniaw.

O! faint, &c.

Ni bu yr hen bobl erioed yn yfed *brandy*,  
 Fi cha'dd yr hen wragedd ddim fawr o *de* a *choff*,  
 Bara ceirch caled o flawd wedi rhuddo,  
 Ychydig o ymenyn gydag enwyn i ginio.

O! faint, &c.

Er hyny'r oedd cwrw i'w gael yn rhai cyrau,  
 I yfed at y beirdd am wneuthur carol gwyliau,  
 Yr oedd yn yr amser hyny ganu digon cymhwys,  
 A chanai pawb o'r goreu cyn cychwyn i Gaerwys.

O! faint, &c.

Ni wiiw i'r beirdd 'rwan feddwl gwneuthur canu,  
 Na bo chwech neu saith mor lledgroes am eu barnu,  
 Er iddynt wneuthur englyn, a hwnw'n broest cadwynog,  
 Ni thâl ef mo'i ddarllen oni bydd e'n gyfochrog.

O! faint, &c.

Ond dewch â cherdd Saesneg, na thâl hi mo'i gwrando,  
 Hwnw geiff ei barchu p'le bynag y byddo ;  
 A llawer Cymro balch yn deall canu Saesneg,  
 Ofer yn Gymraeg yw canu dim yn 'chwaneg.

O! faint, &c.

*Glan y Gors.*

J. JONES.

Y FFORDD I FYNED YN  
**WR BONEDDIG**

YN LLUNDAIN.

Ar y dôn "Poor Jack."

Pwy bynag sydd â'i fryd ar fyn'd yn wr boneddig,  
Ond i chwi drin y byd, chwi ewch ym mhen ychydig;  
Na phrisiwch byth mo'r draen o glywed neb yn achwyn,  
Rhowch y droed oreu 'mlaen, neu peidiwch byth â  
chychwyn.

Fal de ral, &c.

Os arian ar ryw ddydd fydd arnoch idd eu talu,  
Na fyddwch byth yn brudd,—ynfydrwydd yw gofalu;  
Ac os bydd ambell rai yn chwennyech myn'd yn hyfion,  
Nid arnoch chwi mae'r bai,—gwnewch olwg eithaf gwir-  
ion!

Fal de ral, &c.

Os bydd rhyw ddyn tra ffol ag arno beth i chwithau,  
Canlynwch ar ei ol i'w ceisio hwyr a borau;  
A thyingwch wrtho fe, gan ffustio'r bwrdd â'ch dyrnau,  
*"Hang me, if you'll not pay, I'll speak to my attorney."*

Fal de ral, &c.

Ymdrswiwch bob prydnewn, 'run fath a phob coeg-ladron,  
Rhai'n sydd yn aml iawn yn gwisgo dillad duon;  
Os holi ddaw ger bron, neu rywrai yn dal sylw,  
D'wedwch—"F' ewythr Gruffydd John, yscweier, sydd  
wedi marw!"

Fal de ral, &c.

Ymfroliwch hanner awr eich bod yn bwyta'ch cinio,  
 Lle roedd rhyw helynt mawr, a'r seigiau bron â'ch sigo ;  
*"How glorious I have dined with the Lord of our shire :  
 I've swallowed so much wine, till my brains are all on fire."*  
 Fal de ral, &c.

Ow ! cofiwch chwareu'r pranc o ymledu ac ymchwyddo,  
 A soniwch am y Banc, a phrynu a gwerthu eiddo ;  
*I'm up to all the Jews, which might be thought surprising ;  
 O what a glorious news ! I see the stocks are rising.*  
 Fal de ral, &c.

A chofiwch er mawrhâd, ymsiarad rai amserau  
 Am eich tŷ sydd yn y wlad, eich gwartheg a'ch ceffylau ;  
*Your cellars full of wine, your rooms you neatly furnish—  
 Your girls are so divine—hang me if you don't flourish.*  
 Fal de ral, &c.

Os holir ambell dro o ba wlad y daethoch allan,  
 O byddwch ddrwg eich co',—mi ddaethym yma'n fychan ;  
*My father's humble cot is in the country altogether,  
 His language I forgot before I learned another.*  
 Fal de ral, &c.

Os ewch chwi'n fyr o wynt, bydd dirion i chwi dori :  
 Rhowch ddeunaw yn y bunt, a chenwch *Hob y deri* ;  
 Os ewch i din y sach cyn myn'd i grafanc angeu,  
 Ni bydd ond colled bach, a chwithau heb ddim yn  
 dechreu.  
 Fal de ral, &c.

Os ewch ryw bryd mor dost a gorfod gadaw Llundain,  
 Rhag crogi'ch corff wrth bost, dewch adre'n ol drachefn ;  
 Cewch groesaw gan eich mam, mewn bwth ym min y  
 mynydd,  
 A chwareu'r hen dôn gam, bob dydd â Dic Sion Dafydd.  
 Fal de ral, &c.

*Glan y Gors.*

J. JONES.